Nodyn Preifatrwydd

Data personol
Mae'r canlynol yn egluro'ch hawliau a rhoi'r wybodaeth y mae gennych hawl iddi o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Noder bod yr adran hon yn cyfeirio at eich data personol (eich enw, cyfeiriad ac unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio i'ch adnabod chi'n bersonol) yn unig, nid cynnwys arall eich cais Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.

1. Hunaniaeth y rheolwr data a manylion cyswllt ein Swyddog Diogelu Data
Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yn rheolwr data ar gyfer holl ddata personol sy'n gysylltiedig â Chronfa Adfywio Cymunedol y DU a gesglir gyda'r ffurflenni perthnasol a gyflwynir i MHCLG, a rheoli a phrosesu Data Personol.

Gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn dataprotection@communities.gov.uk

Dynodwyd Awdurdodau Maerol Cyfunedig, Awdurdod Llundain Fwyaf, Cynghorau Sir neu Awdurdodau Unedol, yn 'Awdurdod Arweiniol' ym Mhrydain Fawr ar gyfer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU. Gwahoddwyd pob Awdurdod Arweiniol i redeg proses gynnig leol a byddant yn rheolwr data ar y cyd ar gyfer holl Ddata Personol sy'n gysylltiedig â Chronfa Adfywio Cymunedol y DU a gesglir gyda'r ffurflenni perthnasol fel rhan o'r broses hon, a rheoli a phrosesu Data Personol, lle nad yw ceisiadau o'r fath yn cael eu cyflwyno i MHCLG i'w hystyried.

Mae gan bob Awdurdod Arweiniol ei bolisi preifatrwydd ei hun a'i Swyddog Diogelu Data. Bydd manylion y rhain ar gael fel rhan o'r broses gynnig leol ar gyfer y Gronfa.

2. Pam rydym yn casglu eich data personol
Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o broses gynnig Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch cynnig ac at ddibenion monitro. Efallai y byddwn hefyd yn ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion sy'n benodol i'r Gronfa.

3. Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol
Bydd yr MHCLG yn prosesu'r holl ddata yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU 2018 (GDPR y DU) a'r holl gyfreithiau a rheoliadau cymwys sy'n ymwneud â phrosesu Data Personol a phreifatrwydd, gan gynnwys, lle bo angen, y canllawiau a chodau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw reoliadau diogelu data perthnasol eraill (gyda'i gilydd "y Ddeddfwriaeth Diogelu Data (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd)").

Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn nodi pryd y caniateir i ni brosesu'ch data yn gyfreithlon.

Y sail gyfreithlon sy'n berthnasol i'r prosesu hwn yw Erthygl 6 (1) (e) o GDPR y DU; bod prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolwr; mae'r data sy'n cael ei brosesu yn perthyn i gysylltiadau busnes a brosesir yn ystod busnes arferol adran o'r llywodraeth.

4. Gyda phwy fyddwn yn rhannu'r data
Fel rhan o'r broses o ddewis a monitro Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, bydd yr MHCLG yn rhannu eich data personol ag adrannau perthnasol y llywodraeth gan gynnwys:

- Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Trysorlys Ei Mawrhydi (HMT)

- Swyddfa'r Cabinet
- Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol yr Alban
- Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Swyddfa Gogledd Iwerddon
- Adran Addysg
- Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)
- Adran Masnach Ryngwladol

Gellir rhannu'r data hefyd ag adrannau yn y Gweinyddiaethau Datganoledig, a chontractwyr lle cânt eu defnyddio at ddibenion monitro, i werthuso'r rhaglen. Bydd eu contract yn nodi'r hyn y caniateir iddynt ei wneud gyda data personol.

5. Y hyd y byddwn yn cadw'r data personol, neu'r meini prawf a ddefnyddir i bennu'r cyfnod cadw

Os bydd eich cynnig yn llwyddiannus, bydd eich data personol yn cael ei gadw am hyd at ddwy flynedd ar ôl cau'r broses gynnig. Amcangyfrifir mai mis Gorffennaf 2023 fydd hyn ar hyn o bryd. Fel rhan o'r broses fonitro, byddwn yn cysylltu â chi'n rheolaidd i sicrhau bod ein cofnodion yn gyfredol.

Pe bai'ch cynnig yn aflwyddiannus, byddwn yn dileu eich data personol.

6. Eich hawliau, e.e. mynediad, cywiro, dileu

Y data rydym yn ei gasglu yw eich data personol, ac mae gennych lais sylweddol am yr hyn sy'n digwydd iddo.

Mae gennych hawl i:

a. gwybod ein bod yn defnyddio'ch data personol
b. gweld pa ddata sydd gennym amdanoch
c. gofyn am gywiro'ch data, a gofyn sut rydym yn gwirio bod y wybodaeth sydd gennym ni'n gywir
d. cwyno i'r ICO (gweler isod)

7. Anfon data dramor

Ni fydd eich data personol yn cael ei anfon dramor**.**

8. Gwneud penderfyniadau awtomataidd

Ni fyddwn yn defnyddio'ch data ar gyfer unrhyw benderfyniadau awtomataidd.

9. Storio, diogelwch a rheoli data

Bydd eich data personol yn cael ei storio mewn system TG ddiogel gan y llywodraeth. Pan fydd data yn cael ei rannu â thrydydd partïon, fel y nodir yn adran 4 uchod, rydym yn ei wneud yn ofynnol i drydydd partïon barchu diogelwch eich data a'i drin yn unol â'r gyfraith. Mae'n ofynnol i bob trydydd parti gymryd mesurau diogelwch priodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisïau.

10. Cwynion a rhagor o wybodaeth

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae'r adran yn defnyddio'ch data personol, gallwch gwyno.

Mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth annibynnol (ICO) os credwch nad ydym yn trin eich data yn deg neu'n unol â'r gyfraith. Gallwch hefyd gysylltu â'r ICO i gael cyngor annibynnol ar ddiogelu data, preifatrwydd a rhannu data. Mae manylion cyswllt yr ICO i'w gweld isod.

Os ydych yn anfodlon o ran sut rydym yn defnyddio'ch data personol, dylech gysylltu yn gyntaf â dataprotection@communities.gov.uk.

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon, neu i gael cyngor annibynnol ar ddiogelu data, preifatrwydd a rhannu data, gallwch gysylltu â:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow, Cheshire,
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113 neu 01625 545 745
https://ico.org.uk/